

# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Pen-y-bont ar Ogwr (Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen)

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Pen-y-bont ar Ogwr i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

### 1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Pen-y-bont ar Ogwr bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Pen-y-bont ar Ogwr 6 yn llawn, cyflawnodd 1 yn rhannol a methodd â chyflawni 2.

Darperir gwasanaethau llyfrgell ym Mhen-y-bont ar Ogwr gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ar ran yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i berfformio'n dda yn y flwyddyn olaf hon o'r chweched fframwaith, yn enwedig o ran lleihau rhwystrau sy'n atal aelodau o'r gymuned rhag cael mynediad. Mae'r pwyslais cryf ar raglenni llyfrgell, ochr yn ochr â datblygu a hyfforddi staff a pharhau i weithio mewn partneriaeth â'r gymuned leol, wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn gadarn ac yn parhau i ddiwallu anghenion y gymuned.

Mae agor llyfrgell newydd Maesteg wedi cynnig cyfle ar gyfer rhagor o ymgysylltu â'r gymuned, ac adroddir ar effaith yr ymgysylltu hwn yn 2021/22.

- Mae pob man gwasanaeth yn darparu ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer llesiant a chynhwysiant cymdeithasol. Mae pum astudiaeth achos yn dangos yr effaith gadarnhaol ar unigolion amrywiol o'r gymuned.
- Mae nifer yr aelodau newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi cynyddu'n sylweddol eleni, o 346 ym mhob 1,000 o'r boblogaeth yn 2018/19 i 377 yn 2019/20.
- Mae nifer y staff wedi gostwng ychydig yn 2019/20; er nad yw'r targed ar gyfer staff fesul pen o'r boblogaeth wedi'i gyflawni, mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r gofynion o ran nifer y staff cymwysedig (un o bedwar gwasanaeth yn unig sy'n gwneud hynny).
- Mae defnydd o'r gwasanaeth wedi cynyddu, o ran benthyciadau llyfrau oedolion a llyfrau plant, ac mae benthyciadau llyfrau plant wedi cynyddu 25% er 2017/18.
- Er bod y ddarpariaeth cyfrifiaduron personol wedi gostwng, mae uwchraddio meddalwedd cyfrifiaduron cyhoeddus ac ychwanegiadau i'r cyfleusterau argraffu Wi-Fi yn sicrhau y caiff anghenion cymunedol eu diwallu, ac yn arwain at gynnydd sydd i'w groesawu ym modlonrwydd cwsmeriaid â'r ddarpariaeth TGCh.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng unwaith eto, ac mae'n is na'r canolrif. Er hyn, yr oriau agor blynyddol cyfanredol yw'r rhai uchaf yng Nghymru o hyd.

### 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr

awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

## 2.1 Hawliau craidd

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 Hawl Graidd yn llawn. Ceir pwyslais clir ar hygyrchedd a lleihau rhwystrau, ac ymrwymiad parhaus i hyfforddiant staff. Mae staff amrywiol yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd mewn nifer o feysydd. Mae rhwystrau sy'n atal aelodau o'r llyfrgell hefyd wedi'u lleihau, drwy gael gwared ar ddirwyon a chyflwyno system awtomataidd ar gyfer adnewyddu deunyddiau. Cynyddodd aelodaeth o'r llyfrgell 10% yn 2019/20. Mae pwyslais cryf o hyd ar weithio mewn partneriaeth, ac mae hyn yn dylanwadu ar yr hyfforddiant a gynigir drwy'r flwyddyn. Mae'r pwyslais cryf ar ddarpariaeth TG a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol yn parhau. Y gwasanaeth yw'r partner arweiniol ar gyfer cynllun rhanbarthol Books4U o hyd. Roedd y datganiad yn cynnwys tystiolaeth ragorol o'r effaith, ynghyd â dyfyniadau o'r arolwg defnyddwyr.

## 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019-20 mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyflawni 6 ohonynt yn llawn, wedi cyflawni 1 ohonynt yn rhannol, ac wedi methu â chyflawni 2 ohonynt.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	√	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Heb ei gyflawni
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	x	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	x	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwd	√	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	√	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	√	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth	√	Cyflawni'n llawn

Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynnal ei berfformiad yn nhydedd flwyddyn y chweched fframwaith, ac ni fu unrhyw newid arwyddocaol.

### 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn

cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Pen-y-bont ar Ogwr ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion a'i arolwg o ddefnyddwyr sy'n blant ym mis Mawrth 2020.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	90%	=11/19	60%	90%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	89%	9/19	41%	85%	99%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Pen-y-bont ar Ogwr bum astudiaeth achos o'r fath, ynghyd ag adborth ehangach gan ddefnyddwyr:

- Booklink – gwasanaeth danfon i'r cartref Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r gwasanaeth hwn yn cefnogi'r unigolion hynny nad ydynt yn gallu mynd i'r llyfrgell. Mae'n wasanaeth di-dâl ac mae'n achubiaeth i'r rhai hynny sydd ag anabledd, cyflwr iechyd neu salwch.
- Bownsio a Rhigwm – mae'r sesiynau hyn yn annog plant a theuluoedd o bob oed i ymuno mewn sesiwn stori ac odl yn y llyfrgell. Maent yn helpu i feithrin hoffter o lyfrau a darllen. Mae'r sesiynau di-dâl hyn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a llesiant plant a rhieni.
- Man Diogel – mae staff llyfrgell wedi cefnogi nifer o wahanol genedlaethau yn yr un teulu i gael gwybodaeth ar gyfer eu diddordebau a'u gweithgareddau hamdden. Pwysleisir y rôl bwysig y mae llyfrgelloedd yn ei chwarae ym mywyd y gymuned a thrwy hyn, rôl llyfrgellwyr fel rhai sy'n helpu pobl i ganfod eu ffordd o gwmpas byd gwybodaeth.
- Ymwybyddiaeth Ofalgar – dechreuodd y rhaglen hon ym mis Mai 2019. Mae'r sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar wedi galluogi un oedolyn i adfer ei llesiant, lleihau straen a chysgu'n well.
- Daeargelloedd a Dreigiau – mae staff llyfrgell yn cefnogi gemau bwrdd sy'n seiliedig ar chwarae rôl. Mae'r clwb hwn yn cefnogi dysgu cymdeithasol ymhlith oedolion ifanc. Mae mynychu'r sesiynau hyn wedi dod yn rhan allweddol o fywyd un oedolyn, ac wedi ei helpu i gyfarfod pobl newydd a datblygu sgiliau newydd.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell.

Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y manau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2018/19	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 6]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	66%	=13/18	25%	75%	94%	84%
c) iechyd a lles	55%	16/19	38%	69%	96%	87%
d) lle diogel a chroesawgar	97%	=7/19	90%	96%	100%	99%
DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid					[Fframwaith 6]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	99%	=1/18	78%	91%	99%	dd/b
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	100%	=1/18	88%	97%	100%	dd/b
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	99%	1/17	65%	85%	99%	dd/b
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	100%	1/18	85%	96%	100%	dd/b
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.3	=7/19	8.0	9.1	9.5	dd/b
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell <sup>1</sup>						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	3546	16/22	2429	3987	6874	3637
b) rhith-ymweliadau fesul pen	677	14/22	239	909	2131	714
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	198	4/22	78	145	244	193
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen <sup>2</sup>	660	11/22	311	680	1468	567
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul 10,000	6	20/22	4	9	14	8
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	14%	22/22	14%	30%	64%	19%
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£9,311	17/22	£7,260	£12,448	£23,333	£9715
b) % ar staff	70%	5/22	48%	61%	76%	69%
% ar adnoddau gwybodaeth	16%	5/22	5%	13%	22%	20%
% ar offer ac adeiladau	1%	=20/22	0%	8%	21%	2%
% ar gostau gweithredol eraill	13%	=16/22	1%	18%	35%	9%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£184	12/22	£0	£1,597	£13,027	£486
DA 16 – Oriau agor <sup>3</sup>						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.23%	3.96%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/22	0.00%	1.07%	5.41%	0.00%

<sup>1</sup> rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith fod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; <sup>2</sup>

### **3 Dadansoddi perfformiad**

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

#### **3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)<sup>i</sup>**

Cynhaliodd Pen-y-bont ar Ogwr ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ar gyfer DA 1 a DA 2 ym mis Mawrth 2020. Er bod y sgorau ar gyfer datblygu sgiliau, iechyd a llesiant a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl wedi gostwng, treialwyd arolwg ar-lein yn unig, a allai fod wedi effeithio ar y canlyniadau gan ei fod wedi ei wneud yn fwy gweladwy i sylfaen ehangach o gwsmeriaid, ac mae'r canlyniadau'n tueddu i fod yn is nag ar bapur/wyneb yn wyneb. Canmolir eu dull gweithredu arloesol, ynghyd â'r sgorau uchel ar gyfer elfennau o fodlonrwydd cwsmeriaid. Er bod Tŷ'r Ardd wedi'i adleoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2019 mae sylwadau defnyddwyr yn dangos ystod lawn o gefnogaeth i ddatblygiad unigol, ac i iechyd a llesiant. Mae arolwg plant, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2020, yn dangos yn glir bod y gwasanaeth llyfrgell wedi cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant yn yr ardal. Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi buddsoddi llawer iawn yn eu cyfleusterau TG ac mae'n parhau i wneud yn dda yn y maes hwn.

#### **3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)<sup>ii</sup>**

Mae cau pob llyfrgell ar 20 Mawrth 2020 oherwydd Covid-19 hefyd wedi effeithio ar y defnydd o lyfrgelloedd. Mae adleoli Tŷ'r Ardd ym mis Hydref 2019 hefyd wedi effeithio ar nifer yr ymwelwyr, sydd wedi gweld gostyngiad o bron i 2% ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth. Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi parhau i weld cynnydd yn nifer y benthycwyr gweithredol, ynghyd â chynnydd mewn aelodaeth o'r llyfrgell. Mae effaith gadarnhaol nifer o wahanol bartneriaethau, a defnydd rhagweithiol o'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn denu aelodau newydd, wedi arwain at gynnydd yn nifer y benthyciadau llyfrau plant, sydd bellach yn uwch na'r canolrif. Mae benthyciadau llyfrau plant wedi cynyddu 44% er 2017/18, ac mae benthyciadau llyfrau oedolion hefyd wedi cynyddu. Mae cynnydd cryf yn parhau yn y defnydd o e-adnoddau hefyd.

#### **3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)<sup>iii</sup>**

Mae'r gyllideb deunyddiau wedi gostwng ychydig dros 25% yn 2019/20 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond mae'r ffigur ar gyfer cyfanswm y caffaeliadau wedi cynyddu, er na chyflawnwyd yr un o'r targedau caffael. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn un o ddau ar bymtheg o awdurdodau nad ydynt wedi cyflawni'r targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Mae'r Gwasanaeth yn nodi bod stoc a archebwyd ym misoedd Chwefror a Mawrth heb gyrraedd cyn i'r llyfrgelloedd gau, oherwydd effaith Covid-19, ac o ganlyniad nid yw'r stoc hon wedi'i chynnwys. Mae canran y gwariant ar ddeunyddiau i blant yr un fath, sef 15%, ac mae hyn yn unol â Strategaeth Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr. Gwelwyd cynnydd yn y gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg, ac er bod hyn yn parhau yn is na'r targed mae'n braf



gweld cynnydd mewn benthyciadau llyfrau Cymraeg. Mae cau Tŷ'r Ardd a'i Ystafell TG wedi effeithio ar nifer y cyfrifiaduron personol, ac mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron personol wedi lleihau, ond nid yw hyn wedi cael effaith negyddol ar y gwasanaeth. Mae pob cyfrifiadur cyhoeddus wedi'i uwchraddio i Windows 10, ynghyd â pheiriannau argraffu WiFi/Bluetooth. Mae perfformiad mewn cysylltiad â chyflenwi ceisiadau'n parhau i wella, ac mae'r ddau darged wedi'u cyflawni.

### **3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)<sup>iv</sup>**

Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli. Mae cyfanswm y staff wedi gostwng ychydig yn 2019/20 a nodir bod hyn o ganlyniad i gau Tŷ'r Ardd ac ad-drefnu ar lefel rheolwyr. Nid yw'r targed cyffredinol ar gyfer staff fesul pen o'r boblogaeth yn cael ei gyflawni, ond mae ar y lefel ganolrifol erbyn hyn. Mae cyfanswm y staff sydd â chymwysterau cydnabyddedig wedi aros yr un fath, ac mae'n un o'r rhai uchaf yng Nghymru.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng ychydig er 2018/19, ac mae wedi gostwng 7% er 2017/18. Mae gwariant fesul pen o'r boblogaeth yn parhau'n is na'r canolrif. At ei gilydd, mae'r oriau agor blynyddol cyfanredol wedi'u cynnal, a'r cyfartaledd fesul pen o'r boblogaeth yw'r un uchaf yng Nghymru o hyd. Ni roddwyd gwybod am unrhyw oriau agor di-staff, achosion heb eu cynllunio o gau gwasanaeth, nac arosfannau llyfrgell deithiol wedi'u methu. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod y gwasanaeth danfon i gartrefi wedi'i ehangu, a'i fod wedi arwain at fwy o gapasiti o ganlyniad i gael gwared ar fan y llyfrgell deithiol a gwella'r gwasanaeth tai i gynnwys gofalwyr a phobl eraill sy'n agored i niwed.

## **4 Cyd-destun strategol**

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Nodir bod gweledigaeth strategol yr Ymddiriedolaeth, sef gwella llythrennedd pobl o bob oed; cefnogi darllen er pleser a gwella llesiant yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r nodau a amlinellir yn nifer o strategaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â chymunedau lleol er mwyn sicrhau bod ei raglen gweithgareddau ac ymgysylltu yn llwyddo i fod yn gydnaws ag anghenion y gymuned. Rhoddir enghreifftiau penodol i ddangos sut mae blaenoriaethau'r gwasanaeth yn gydnaws â pholisïau strategol ehangach, yn fwyaf arbennig wrth hybu llesiant, addysg a chynhwysiant cymdeithasol.

## **5 Cyfeiriad i'r dyfodol**

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, nodir bod y weledigaeth ehangach ar gyfer y gwasanaeth yn cael ei hamlinellu yng Nghynllun y Llyfrgell (2017-22) sydd wedi'i gyhoeddi erbyn hyn.

Nodir bod buddsoddiad parhaus mewn mannau llyfrgell yn ganolog i'r gwaith o gyflawni'r strategaeth, a bod cynlluniau i barhau i ddatblygu cynllun a chymeriad Llyfrgell Neuadd y

Dref Maesteg. Bydd yr awdurdod yn parhau i adeiladu ar y gwasanaeth llyfrgell i gartrefi a dylai hynny gael effaith gadarnhaol ar unigolion a theuluoedd ynysig.

Mae'r gwasanaeth yn bwriadu adeiladu ar ei raglen lwyddiannus o gydweithio ag ysgolion lleol, ochr yn ochr â'r buddsoddiad parhaus yn heriau darllen y gaeaf a'r haf.

## 6 Casgliad

Darperir gwasanaethau llyfrgell ym Mhen-y-bont ar Ogwr gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ar ran yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i berfformio'n dda yn y flwyddyn olaf hon o'r chweched fframwaith, yn enwedig o ran lleihau rhwystrau sy'n atal aelodau o'r gymuned rhag cael mynediad. Mae'r pwyslais cryf ar raglenni llyfrgell, ochr yn ochr â datblygu a hyfforddi staff a pharhau i weithio mewn partneriaeth â'r gymuned leol, wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn gadarn ac yn parhau i ddiwallu anghenion y gymuned. Mae agor llyfrgell newydd Maesteg wedi cynnig cyfle ar gyfer rhagor o ymgysylltu â'r gymuned, ac adroddir ar effaith yr ymgysylltu hwn yn 2021-22.

---

<sup>i</sup> Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.

<sup>ii</sup> Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.

<sup>iii</sup> Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.

<sup>iv</sup> Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.